

## Y GYFRAITH

Amser a Ganiateir – 1 awr 30 munud

**Atebwch Dri Chwestiwn:**

- un o Adran A
- y cwestiwn gorfodol yn Adran B
- y cwestiwn gorfodol yn Adran C

Mae Adran A yn werth 40 marc

Mae Adran B yn werth 30 marc

Mae Adran C yn werth 30 marc

---

### ADRAN A (40 marc)

**Atebwch un o'r cwestiynau canlynol:**

1. Trafodwch swyddogaeth y gyfraith yn **un** o'r meysydd canlynol. Esboniwch pam y gallai fod yn ddadleuol. Sut ac i ba raddau y gallai'r gyfraith gyfrannu at ddatrys problemau yn y maes hwnnw:

Brecsit  
Masnachu Pobl  
Cynhesu Byd-eang  
Diogelu Hawliau Dynol

2. Sut y byddech chi yn diffinio'r gair "cyfiawnder," a beth yw ei berthynas â'r gyfraith?
3. Mae llawer o bobl yn troseddu drwy yfed dan oed. Mae llai o lawer yn cyflawni trosedd llofruddiaeth. Pam?

**Trosodd**

### **ADRAN B (30 marc)**

Drafftwyd cyfraith sy'n ymwneud â'r modd y rhedir parc cyhoeddus penodol. Mae'n dweud, yn syml, "Ni chaniateir i unrhyw gerbydau gael eu gyrru yn y parc". Rydych chi'n farnwr sy'n gorfod dyfarnu ar achosion yr unigolion canlynol:

- a) Mary, sydd wedi cael ei dal yn reidio bwrdd hofran (sgwter hunan-gydbwysu) yn y parc.
- b) Paul, sydd wedi gyrru injan dân i mewn i'r parc i achub cath a oedd wedi mynd yn sownd mewn coeden.

Pa un o'r diffynyddion hyn, os o gwbl, ydych chi'n eu cael yn euog? Esboniwch eich rhesymau yn y naill achos a'r llall.

### **ADRAN C (30 Marc)**

"Mae seiberfwlio, yn ei wahanol ffurfiau, yn gyffredin ymhlith plant a phobl ifanc ac mae'n cael ei hwyluso gan y ffaith bod mwyfwy o ddefnydd ar dechnoleg. Gallai canlyniadau seiberfwlio fod yn ddifrifol, yn enwedig o safbwynt iechyd meddwl, ac fe allai arwain at hunanladdiad mewn achosion eithafol. Er bod rhieni, ysgolion a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ar-lein yn cael eu hannog i ddarparu amgylchedd diogel ar-lein, ychydig iawn a wyddys am y dulliau cyfreithiol y gellid eu defnyddio i rwystro seiberfwlio, neu a allai weithredu fel ataliad". (El Asam, A. a Samara, M. Computers in Human Behaviour, 2016.)

Darparwch un ddadl o blaid troseddoli seiberfwlio (ei wneud yn drosedd), ac un ddadl yn erbyn gwneud hynny.